# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Mawrth 2021

Amser: 13.32 - 14.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11089

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Delyth Jewell AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AS a Mandy Jones AS.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan y Llywydd at holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ynghylch y Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 – effaith ar Bwyllgorau'r Senedd

2.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd at holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ynghylch y Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 – effaith ar Bwyllgorau'r Senedd.

### 2.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn (Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru – Adeiladau mwy diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad)

2.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn (Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru – Adeiladau mwy diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad).

### 2.3 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol

2.3.a Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Trafod Adroddiad Gwaddol Drafft y Pwyllgor

4.1. Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad gwaddol drafft.

## 5 Trafod ymateb y Pwyllgor i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru

5.1. Trafododd y Pwyllgor yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru